




Archaeoleg Cymru Pecyn Adnoddau Gweithgareddau





Helô 'na!



A hoffech chi ddysgu mwy am archaeoleg Cymru drwy gymryd rhan mewn ychydig o weithgareddau difyr? Os mai 'hoffwn' yw'r ateb, darllenwch ragor!

Rydym wedi creu pump o adnoddau cyffrous ar gyfer unrhyw un rhwng 8-16 mlwydd oed. Gallwch gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn ar eich pen eich hun (gyda chymorth oedolyn) neu gydag eraill.


Cynnwys

- 1** Cyflwyniad: Archaeoleg Cymru
- 4** Adeiladwch eich siambr gladdu Neolithig eich hun!
- 11** Crëwch model eich hun o gylch cwt!
- 19** Gwnewch eich arysgrifiad ogam eich hun!
- 25** Dysgwch am gestyll y Tywysogion Cymreig!
- 31** Recordiwch Sainlun Caban!



Cafodd y gwaith o greu'r pecyn adnoddau hwn ei ariannu'n garedig gan Cadw.

Mae pob delwedd yn hawlfraint Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd oni nodir yn wahanol.



Cyflwyniad: Archaeoleg Cymru

Mae gan Gymru archaeoleg anhygoel, sy'n ymestyn o'r cyfnod cynhanesyddol trwodd i'r Chwyldro Diwydiannol a thu hwnt. Mae'n wych ein bod yn gallu gweld enghreifftiau o'r olion archaeolegol hyn hyd heddiw; mae llawer o'r olion yn dyddio'n ôl filoedd o flynyddoedd. Am cŵl!

Mae gennym dystiolaeth fod pobl wedi bod yn byw yng Nghymru dros 30,000 o flynyddoedd yn ôl yn ystod y **cyfnod Palaeolithig**. Er hynny, prin iawn yw'r archaeoleg sy'n weddill o'r cyfnod hwnnw. Y rheswm am hyn yn rhannol yw bod rhew wedi gorchuddio'r rhan helaeth o Gymru yn ystod y cyfnod hwnnw gan ei bod hi mor oer yma. Ar ôl yr olaf o'r cyfnodau oer hyn, dechreuodd bobl fyw yma yng Nghymru unwaith eto, tua 8000 CC. Roeddynt yn byw drwy hela anifeiliaid gwyllt a chasglu bwydydd naturiol o'r coedwigoedd a glannau'r môr.



Bryn Celli Ddu

Yn ystod y **cyfnod Neolithig**, sef rhwng tua 4000 a 2500 CC, gwelwn safleoedd claddu'r meirw ac aneddiadau yn dechrau ymddangos yn yr olion archaeolegol. Gallwch ddysgu sut cafodd siambrau claddu eu hadeiladu yn ystod y cyfnod Neolithig drwy gymryd rhan yn ein gweithgaredd crefft.

Yn ystod y cyfnod Neolithig, dechreuodd bobl ffermio a chreu arteffactau ac offer allan o gerrig. Dysgodd bobl sut i wneud llestri crochenwaith hefyd.

Yn yr **Oes Efydd** (tua 2000 i 700 CC), dechreuodd bobl ddefnyddio metel. I ddechrau arni, dim ond copr a ddefnyddiwyd ganddynt, sydd braidd yn feddal, ond yna dechreuodd bobl ychwanegu tun i'w wneud yn galetach a chreu efydd wrth wneud hynny. Defnyddiwyd bwyell efydd er mwyn torri coed i lawr.

Gallwch weld olion y carneddi claddu o'r Oes Efydd yn y tirlun hyd heddiw. Mae Bedd Branwen yn un enwog ar Ynys Môn, lle cafodd Branwen ei chladdu yn ddiweddarach, yn ôl un o'r chwedlau cynnar yn llyfr y Mabinogion.


Gwelwn fryngaerau'n cael eu hadeiladu yn ystod **Oes yr Haearn** (tua 700 CC i 43 OC). Efallai mai gwaith yr aneddiadau amddiffynnol hyn oedd amddiffyn eu cnydau a'u hanifeiliaid. Gallwch ddysgu am dai crynion drwy gymryd rhan yn ein gweithgaredd cylchoedd cytiau. Gweddillion tai crynion yw cylchoedd cytiau.



Bryngaer Dinas Dinlle

Yn 48 OC daeth y **Rhufeiniad** i Gymru, gan adeiladu rhwydwaith o ffyrdd a chaerau.

Mae'r **cyfnod Canoloesol** yng Nghymru yn para rhwng tua 410 ac 1485 OC. Yn ystod y cyfnod Canoloesol, daeth y Llychlynwyr i Gymru, gan ymosod ar safleoedd i ddechrau er mwyn dwyn trysorau, ond bu iddynt setlo yn yr ardal wedi hynny.




O'r eglwysi, cerrig cerfiedig a chroesau, gwelwn fod pobl wedi bod yn ymarfer Cristnogaeth yn ystod y cyfnod hwn. Gallwch wneud eich carreg gerfiedig eich hun drwy gwblhau'r gweithgaredd ogam hwn. Gwyddor hynafol oedd Ogam. Yn ddiweddarach, cafwyd cestyll – rhai a adeiladwyd gan Dywysogion Cymru, a rhai gan y Saeson – ac maent yn ein helpu i ddeall tirlun gwleidyddol y cyfnod Canoloesol yng Nghymru. Gallwch ddysgu rhai o'r gwahaniaethau rhwng y ddau fath o gestyll yn ein gweithgaredd cestyll Cymreig.



Yn ystod y cyfnod Diwydiannol gwelwyd llawer iawn o waith cloddio mewn chwareli a phyllau. Ym Mhrydain, dechreuodd y **Chwyldro Diwydiannol** at ddiwedd y 18fed ganrif, ac mae effaith y diwydiannau hynny i'w gweld hyd heddiw. Mae tirlun llechi gogledd orllewin Cymru yn enghraifft wych o hyn. Roedd y chwarelwyr llechi'n treulio'u cyfnodau prydau bwyd mewn caban. Gallwch ddysgu am y cabanau a recordio eich sainlun caban eich hun yn un o'n gweithgareddau.

Yng Nghymru, ceir archaeoleg hefyd sy'n gysylltiedig â'r **Rhyfel Mawr** (1914 – 1918) a'r **Ail Ryfel Byd** (1939 – 1945). Er enghraifft, gallwch weld y blociau amddiffyn rhag tanciau hyd heddiw mewn dyffrynoedd yn y mynyddoedd ac ar yr arfordir – blociau concriid mawr yw'r rhain a adeiladwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd i atal tanciau petai'r gelyn yn ymosod.





Addas ar
gyfer
oedranau
8+

Amser 90
munud



 Cadw

Adeiladwch eich siambr gladdu Neolithig eich hun!


CEFNDIR

Digwyddodd y cyfnod Neolithig ym Mhrydain rhwng tua 4000 a 2500 CC. Enw arall ar y cyfnod Neolithig yw Oes Newydd y Cerrig. Ystyr 'neo' yw 'newydd' ac ystyr 'lithig' yw 'carreg' neu 'wedi'i wneud o garreg'.

Yn y cyfnod Neolithig gwelwn y ffermwyr cyntaf ym Mhrydain. Mae crochenwaith yn dechnoleg newydd, a gwelwn siambrau claddu'n dechrau ymddangos ar y tirlun.

Yn Gymraeg, defnyddiwn y gair 'cromlech' ar gyfer 'siambr gladdu' hefyd.

Siambr gladdu Maen y Bardd, ger
Rowen, Conwy




Gweithgaredd 1: Pos Crafu Pen Neolithig



Hmm... Dyma luniau o ddwy siambr gladdu. Ond maent yn edrych yn hollol wahanol i'w gilydd! Meddyliwch beth tybed yw'r rheswm am hynny ac a allwch chi weithio allan beth oedd y stori wrth wraidd hyn. Byddwn yn ateb y pos hwn ar y dudalen nesaf! Siambr gladdu Bryn Celli Ddu yw'r siambr gladdu yn y llun ar y chwith, ac ar y dde fe welwch siambr gladdu Bodowyr. Mae'r ddau safle ar Ynys Môn ac yn perthyn i Cadw.





Atebion Gweithgaredd 1

Byddai siambr gladdu yn edrych fel hyn i ddechrau arni. Mae'r siambr wedi'i gorchuddio gyda thwmpath o bridd a cherrig.




Dros amser mae'r tywydd garw'n erydu'r twmpath, ac efallai y bydd y cerrig yn cael eu cymryd i'w defnyddio fel deunydd adeiladu yn rhywle arall.

Efallai y bydd y cerrig fertigol yn llwyddo i barhau i sefyll, a'r maen capan efallai, yn bennaf gan eu bod yn rhy fawr i'w symud efallai. Weithiau mae'r cerrig hyn yn cwmpo drosodd, ac weithiau maent yn cael eu rhoi yn ôl yn eu lle. Tydyn nhw'n edrych yn wych?

Weithiau mae angen gwneud gwaith atgyweirio er mwyn adfer heneb.

Ym Mryn Celli Ddu cafodd y cyntedd a'r twmpath eu hatgyweirio'n rhannol - yn yr ail lun ar y dde, gallwch weld lintel fodern yn y nenfwd.



Gweithgaredd 2: Beth am wneud ein siambr gladdu ein hunain!

Ar gyfer ein hengraifft rydym yn defnyddio siambr gladdu Maen y Bardd (ger Rowen, Conwy) fel ein hysbrydoliaeth.

BYDDWCH ANGEN


- Clai Fimo gwyrdd a llwyd
- Ffoil arian
- Teclynnau crefft
- Gweyllen weu
- Hambwrdd pobi



Rydym yn defnyddio dau becyn 57g o Fimo, sef clai modelu sy'n caledu wrth iddo gael ei bobi mewn popty. Mae Fimo soft yn dda, neu gellir defnyddio Fimo effect. Mae Fimo effect ychydig yn anoddach i'w siapio ac ychydig yn ddrytach.


IECHYD A DIOGELWCH

- Pobi - bydd y Fimo, yr hambwrdd pobi a'r popty yn boeth! Gadewch iddynt oeri cyn eu cyffwrdd. Gofynnwch i oedolyn am help.
- Byddwch yn ofalus gyda phethau pigog fel gweyll gweu!
- Byddwch yn ofalus gyda siswrn wrth dorri pethau.



DULL

- Torrwch ddarn o ffoil arian tua 12 x 12 cm. Plygwch yr ymylon yn ôl er mwyn ei gryfhau. Ar ôl gwneud hynny bydd y darn ffoil nawr tua 10 x 10 cm.
- Bydd angen tua hyn o Fimo arnoch wedi'i rholio i mewn i beli (gweler isod). Mae'r peli mawr gwyrdd a llwyd tua'r un maint â pheli ping pong. Bydd angen i chi gynhesu'r Fimo gyda'ch dwylo i'w feddalu.
- Gwasgwch y belen werdd yn fflat a'i rhoi ar y ffoil. Mae hyn yn cynrychioli'r glaswellt ar y ddaear. Ychwanegwch ychydig o fanylder i'r glaswellt gyda rhywbeth pigog, fel gweyllen weu.



- Mae'r Fimo llwyd ar gyfer y cerrig fertigol a'r capan. Siapiwch y tair pêl maint canolig fel selsig, ac yna gwnewch waelod pob ffurf selsig yn fflat oddi tanynt. Peidiwch â defnyddio'r belen lwyd fwyaf na'r un leiaf ar hyn o bryd. Dylent edrych yn debyg i hyn. Gwnewch un o'r rhai fertigol ychydig yn dalach na'r lleill.




- Ceisiwch wneud i'ch cerrig edrych yn hen iawn. Mae angen gwneud iddynt edrych fel petaent wedi bod yn sefyll yno ers miloedd o flynyddoedd. Defnyddiwch y weyllen weu, neu eich ewinedd. Gallwch ddefnyddio teclynnau crefftio hefyd. Pinsiwch y clai! Gwasgwch beth ohono! Ewch ati i wneud i'r cyfan edrych yn hen ac yn arw.
- Ewch drwy'r un broses eto i wneud y capan. Gwnewch y capan allan o'r belen fwyaf o glai sydd gennych ar ôl.



AWGRYM ARDDERCHOG

Gwnewch yn siŵr nad yw'r capan yn rhy denau neu mi fydd yn sigo. Bydd y capan yn gorwedd ar y cerrig fertigol, ac yn sicrhaid i ni osgoi cael capan trist ac sydd wedi plygu.



- Rhewch eich cerrig fertigol ar y glaswellt. Gosodwch y capan ar ben y cerrig fertigol.
- I greu rhagor o effaith, a defnyddio'r belen fach lwyd o Fimo sydd yn weddill, gwnewch ychydig o beli bach ychwanegol i'w gosod o amgylch y siambr gladdu. Ar un cyfnod, efallai bod y cerrig hyn wedi bod yn rhan o'r twmpath a oedd yn gorchuddio'r siambr gladdu.



- Pobwch y model (ar y darn o ffoil) ar hambwrdd pobi mewn popty sydd wedi'i gynhesu'n barod ar 110 Celsiws (230 gradd Fahrenheit) am tua 30 munud. Bydd yr hambwrdd, Fimo a'r popty'n boeth – peidiwch â'u cyffwrdd! Gadewch i'r hambwrdd a'r Fimo oeri am hanner awr o leiaf. Gofynnwch i oedolyn am help.



GWEITHGAREDDAU BONWS

Beth am fod yn fwy creadigol fyth a gwneud model sy'n defnyddio gwahanol liwiau?

Ymchwiliwch siambr gladdu Bryn Celli Ddu

Hirdddydd yr haf yw diwrnod hiraf y flwyddyn. Mae yna gysylltiad agos iawn rhwng y ffordd y cafodd y siambr ei hadeiladu a hirdddydd yr haf. Ceisiwch ddarganfod beth yw'r cysylltiad hwn.

Cliciwch yma: <https://cadw.gov.wales/visit/places-to-visit/bryn-celli-ddu-burial-chamber>


Addas ar
gyfer
oedranau
8+

Creu eich model eich hun o gylch cwt!

CEFNDIR


Weithiau, yr enw a roddir ar weddillion archaeolegol o dai crynion yw cylchoedd cytiau. Pan nad oedd tŷ crwn yn cael ei ddefnyddio mwyach, byddai ei waliau a'r to yn dymchwel ac yn dirywio dros amser ac yn y diwedd dim ond gweddillion crwn y sylfaen o gerrig fyddai ar ôl – gan greu cylch cwt. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng tŷ crwn a chylch cwt.

Dyma ddarlun o sut beth oedd tŷ crwn efallai...



Delwedd © Toby Driver


Mae amryw o'r tai crynion (neu gylchoedd cytiau) yn dyddio o Oes yr Haearn (tua 700 CC i 43 OC yma yng Nghymru).



Adeiladwyd tai crynion yn fuan ar ôl Oes yr Haearn hefyd, yn ystod y cyfnod Brythonig-Rufeinig – sef y cyfnod sy'n gorgyffwrdd gyda chyfnod olaf Oes yr Haearn a dechrau'r cyfnod Rhufeinig.

Gall cylchoedd cytiau ddiflannu o'r tirlun pan:

- Mae cerrig yn cael eu clirio o'r caeau er mwyn paratoi'r tir ar gyfer ffermio.
- Mae'r cerrig yn cael eu cymryd er mwyn eu defnyddio ar gyfer adeiladu pethau eraill, fel waliau cerrig.



Gweithgaredd: Beth am wneud ein cylch cwt ein hunain!

BYDDWCH ANGEN

- Clai gwyrdd a llwyd – rydym yn argymhell i chi ddefnyddio ‘COLOURCLAY by scola’.
- Darn o gardfwrdd 10 x 10cm
- Teclyn crefft
- Gweyllen weu



AWGRYM ARDDERCHOG

Bydd angen i chi gynhesu'ch clai gyda'ch dwylo cyn ei ddefnyddio.




IECHYD A DIOGELWCH!

- Byddwch yn ofalus gyda siswrn wrth dorri pethau.
- Byddwch yn ofalus gyda phethau pigog fel gweyll gweu!
- Gwnewch yn siŵr fod eich clai modelu yn un sy'n gallu cael ei roi mewn popty i'w galedu. Os felly, gofynnwch i oedolyn am help.



DULL


- Torrwch ddarn o gardfwrdd (tua 10cm x 10cm). Bachwch ddau ddarn swmpus o glai yn barod. Bydd angen dwywaith gymaint o wyrdd nag o llwyd (os ydych yn defnyddio COLOURCLAY by scola, mae'r darn gwyrdd tua hanner maint un o'r bariau mawr, ac mae'r un llwyd tua chwarter un ohonynt os defnyddiwrch COLOURCLAY by scola).
- Taenwch ychydig o'r gwyrdd ar y cardfwrdd, i gynrychioli'r ddaear. Peidiwch â phoeni os bydd lymphiau ynddo. Wedi'r cwbl, mae'r ddaear yn llawn lymphiau. Gallech ddefnyddio teclyn crefftio i dacluso'r ymylon.
- Beth am wneud rhych yn y glaswellt i'n cerrig orwedd ynddo. Defnyddiwrch rywbeth pigog, fel gweyllen weu, i farcio siâp cylch. Byddwch yn ofalus efo pethau pigog!



AWGRYM ARDDERCHOG

Gwnewch yn siŵr nad yw'r cylch yn mynd yn rhy agos at yr ymylon, a bydd angen gadael bwlch ar gyfer y fynedfa.

- Gwnewch y rhych yn lletach gyda'ch bysedd. Peidiwch â phoeni os byddwch yn cael gwared ar y marciau a wnaed gan y weyllen weu wrth wneud hyn.



- Yna gwnewch lwythi (ie, llwythi) o gerrig drwy ddefnyddio'r clai llwyd. Gwnewch gerrig o wahanol feintiau. Gwnewch gerrig o wahanol siapiau. Gwnewch gerrig bach iawn. Gwnewch gerrig tenau. Gwnewch... wel, lawer iawn o gerrig. Rhaid i ni lenwi'r rhych yn llwyr.



WYDDOCH CHI...

Yn aml cafodd tai crynion eu hadeiladu gyda'r fynedfa'n wynebu i ffwrdd oddi wrth gyfeiriad arferol y gwynt.


Edrychwch ar fynedfa gweddillion y tŷ crwn ym mryngaer Dinas Dinlle isod. Mae'r fynedfa'n agor allan tuag atoch wrth i chi nesau, ac roedd rhai o'r cerrig a ddefnyddiwyd i adeiladu'r fynedfa'n eithriadol o fawr. A oedd yr adeiladwyr yn ceisio creu 'profiad o ryw fynedfa grand' i blesio ymwelwyr?

Bryngaer Dinas Dinlle



Yn ôl i'n model ni...

- Yn eich model, gallech osod rhannau o wyneb mewnol neu allanol y wal sydd yn parhau i fod mewn un darn ac fel yr oeddynt ers talwm... Gallech ddefnyddio teclyn crefftio i helpu i siapia'r wyneb.



Dyma lun o ran o wyneb wal gerrig, yn ei leoliad gwreiddiol ac yn gyfan, fel rhan o olion y tŷ crwn mawr a gloddiwyd ar fryngaer Dinas Dinlle, sydd wedi'i lleoli ar arfordir gogledd orllewin Cymru.

Gelwir y cerrig sydd wedi disgyn o'r waliau neu'r strwythurau yn gerrig cwmp. Gall eich model o gylch cwt gynnwys rhai rhannau o wynebau wal gerrig a cherrig cwmp. Yn aml mae wyneb y wal gerrig wedi ei guddio gan gerrig cwmp, felly mae croeso i chi greu eich model mewn ffordd sy'n dangos hynny.

- Daliwch ati i ychwanegu cerrig hyd nes y byddwch yn fodlon gyda dyluniad eich cylch cwt. Gwasgarwch ychydig o gerrig (neu gerrig cwmp) o gwmpas eich cylch cwt i greu effaith ychwanegol.
- Dyna ni, mae eich cylch cwt wedi ei gwblhau!



Gweithgaredd Bonws 1

Archwiliwch y model rhyngweithiol 3D hwn o weddillion y tŷ crwn yn Ninas Dinlle, a drafodwyd gennym yn gynharach. Cafodd y model ei greu gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd.



Cliciwch yma: <https://skfb.ly/oztqp>

Dyma ychydig o gyfarwyddiadau ar gyfer archwilio'r model:

- Symud y camera: Llusgo gydag un bys neu Fotwm Chwith y Llygoden.
- Panio: Llusgo gyda dau fys neu Fotwm Dde y Llygoden neu SHIFT + Botwm Chwith y Llygoden.
- Chwyddo i mewn ar wrthrych: Tapio ddwywaith neu Glic-dwbl ar y gwrthrych.
- Chwyddo allan: Tapio ddwywaith neu Glic-dwbl ar y cefndir.
- Chwyddo: Pinsio i mewn/allan neu Olwyn y Llygoden neu CTRL + Botwm Chwith y Llygoden



Gweithgaredd Bonws 2 (12+)



Dyma awyrlun o weddillion y tŷ crwn yn Ninas Dinlle

Yn aml mae safleoedd cloddio yn cael eu hail-lenwi (a elwir yn ôl-lenwi) wedi i'r gwaith cloddio ddod i ben, er mwyn gwarchod yr olion archaeolegol. Ond mae gweddillion y tŷ crwn ym mryngaer Dinas Dinlle wedi ei adael yn agored er mwyn i'r cyhoedd ei weld. Edrychwch ar y model 3D (dolen ar dudalen 17) i gael gweld sut mae'n edrych.

Mae safleoedd sydd wedi eu hatgyweirio yn wych. Mae gwaith cloddio archaeolegol yn rhoi help i ni ddeall mwy am y safleoedd, ac mae gwaith cadwraeth yn helpu i warchod y mannau hyn ac mae pethau fel paneli gwybodaeth yn golygu y gall y cyhoedd ddysgu am y safleoedd hyn.



Fodd bynnag, gall fod yn gyffrous hefyd gael golwg ar safle sydd yn rhywle 'mwy anghysbell', efallai lle nad oes gwaith cloddio na chadwraeth wedi digwydd hyd yma, a dim pethau fel paneli dehongli. Enghraifft dda o hyn yw'r tŷ crwn ym mynyddoedd y Carneddau a welir yn y llun.

Meddyliwch am weddillion y tŷ crwn ym mryngaer Dinas Dinlle a'r cylch cwt yn y Carneddau. Pa enghraifft sydd orau gennych chi? Nid oes ateb cywir nac anghywir, mae'r ddau yn dderbyniol. Rydym wrthi'n ceisio gwneud i chi feddwl am y gwahanol ffyrdd y gallwn fwynhau ein treftadaeth.



Addas ar
gyfer
oedranau
8+

Amser 30
munud



Cadw

Gwnewch eich arysgrifiad ogam eich hun!


CEFNDIR

Mae pob un ohonom yn gyfarwydd â'r Wyddor – sef A, B, C ac yn y blaen. Wel, gwyddor o'r Canoloesoedd cynnar yw Ogam a ddefnyddiwyd yn bennaf fel math o iaith Wyddeleg gynnar. Mae'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau sydd wedi para drwy'r oesoedd o arysgrifiadau yn dod o lwerddon, ond mae yna 34 o enghreifftiau yng Nghymru, a'r rhan fwyaf ohonynt yn y de orllewin. Daw'r arysgrifiadau sydd wedi para o'r 5ed a'r 6ed ganrif ac i'w gweld ar gerrig (ond efallai bod deunyddiau eraill wedi cael eu defnyddio hefyd). Mae gan amryw o'r cerrig arysgrifiad yr iaith Ladin arnynt, ac wedi ei ailadrodd wedyn mewn ogam.

Isod gwelir enghraifft o Gymru, o eglwys Sant Brynach, Nanhyfer, Sir Benfro. Mae'r garreg sydd wedi'i harysgrifio bellach yn rhan o silff ffenestr.




©Mick Sharp/Alamy Stock Photo/JT Photography



Mae yna arysgrifiad Lladin ar y garreg hon hefyd. O'r ogam a'r Lladin, y cyfieithiad yn fras yw 'Carreg Maglocunus mab Clutorius'. Mae cerrig ogam sydd wedi'u harysgrifio sydd wedi para, yn gofebau i bobl, gan nodi eu henwau fel arfer.

Dyma'r wyddor ogam.



Gweithgaredd 1: Beth am gyfieithu rhywbeth i ogam!

BYDDWCH ANGEN


- Copi o'r wyddor ogam a/neu y wefan gyfieithu - ogham.co
- Papur
- Pensel/beiro/creon
- Ychydig o eiriau i'w cyfieithu (gallech ddefnyddio'ch enw neu enw eich hoff anifail anwes, er enghraifft)





PETHAU I'W HYSTYRIED

- Nid yw pob llythyren fodern wedi eu cynnwys yn yr wyddor ogam. Nid yw'r llythrennau'r wyddor Gymraeg fel Rh, Ll, Ng, Th ac Y yn rhan o'r wyddor ogam.
- Mae ogam yn cael ei darllen o'r gwaelod i'r top. Edrychwch ar yr enghraifft hon:





Gallwn ddefnyddio'r cyfieithiad ogam ar gyfer yr arysgrifiad yn Gweithgaredd 2

DULL



- Gan ddechrau o waelod eich tudalen, defnyddiwch yr wyddor ogam i sillafu eich gair neu eiriau.
- Os ydych yn defnyddio'r wefan, gallwch wirio i weld a ydych wedi ei ysgrifennu'n gywir. Cliciwch yma i roi cynnig ar eich cyfieithiad! ogham.co.
- Cadwch eich ogam a gyfieithwyd yn ddiogel, oherwydd gallwch ei ddefnyddio yn Gweithgaredd 2.






clwb archaeolegwyr ifanc
young archaeologists' club




Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust



Gweithgaredd 2: Arysgrifiad ogam

BYDDWCH ANGEN

- Clai modelu (mae clai aer-sychu neu playdough yn gweithio'n dda)
- Bordyn crefft neu haen blastig ar eich bwrdd gweithio - gall gwneud pethau allan o glai sy'n aer-sychu (neu playdough) greu llanast
- Teclynnau crefft ar gyfer creu'r arysgrifiad
- Ychydig o ddŵr




IECHYD A DIOGELWCH

- Os ydych yn defnyddio playdough, peidiwch â'i fwyta!
- Os byddwch yn defnyddio clai aer-sychu, cofiwch nad oes angen ei roi yn y popty i galedu.
- Golchwch eich dwylo ar ôl y gweithgaredd




AWGRYM ARDDERCHOG:

- Defnyddiwch eich bysedd, ac ychydig o ddŵr efallai, i lyfnhau unrhyw graciau neu linellau wrth iddynt ymddangos.
- Dyma ddolen i rysait playdough:
www.bbcgoodfood.com/howto/guide/playdough-recipe.



DULL

- Cynheswch lwmp o glai tua'r maint yma (tua'r un maint â phêl golff).
- Siapiwch y clai fel selsig byr.
- Gwasgwch y clai yn fflat. Mae ein graddfa yn y llun yn rhoi argraff i chi o faint y clai fflat.
- Ysgrifennwch eich arysgrifiad ar y clai.



AWGRYM ARDDERCHOG:

efallai yr hoffech ymarfer yn gyntaf, yn enwedig er mwyn cael y bylchau'n gywir. Y peth gwyh ynglŷn â chlai yw y gallwch lyfnhau dros y camgymeriadau a dechrau eto.

- Gadewch i'ch model sychu, ar ddarn o bapur cegin efallai. Bydd yn cymryd dau neu dri diwrnod i sychu. Peidiwch â'i adael yn agos i unrhyw wresogydd (gallai'r clai neu'r playdough gracio).

WYDDOCH CHI.....

Mae enghreifftiau o arysgrifiadau ogam yng Nghymru yn rhoi tystiolaeth i ni o'r cyswllt rhwng y Gwyddelod a'r Cymry ar ddiwedd y cyfnod Rhufeinig.

GWEITHGAREDDAU BONWS

Gallech geisio siapio darn o glai i edrych fel carreg fertigol, fel yr enghraifft a welwch ar y dde.

Neu beth am roi cynnig ar wneud carreg gydag aysgrifiad ogam neu Ladin arni? Neu gallech ddefnyddio enghraifft eglwys Sant Brynach yn yr adnodd hwn fel man cychwyn.



©Mick Sharp/Alamy Stock Photo/JT Photography

Gallwch weld yn yr enghreifftiau bod ogham yn aml wedi'i ysgrifennu i fyny ochr carreg. Efallai ei fod yn wirion, ond allech chi wneud hynny ar eich clai neu does chwarae?

ARCHWILIO

Os hoffech archwilio'r gwaith ysgrifennu difyr hwn ymhellach, edrychwch ar ragor o enghreifftiau ar [Archwilio](#). Cronfa ddata Cymru gyfan yw Archwilio, y gallwch chwilio drwyddi i gael gwybodaeth archaeolegol a hanesyddol. Gallech chwilio am enghreifftiau yn eich ardal chi os ydych yn byw yng Nghymru.




What is Archwilio? [user sources](#) [Search](#) [Links](#) [Help](#)



GEIRFA

Lladin – iaith yr hen Rufain

Aysgrifiad – ysgrifen sydd wedi ei cherfio i mewn i rywbeth





Addas ar
gyfer
oeddrannau
8+

Amser 30
munud

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust

Cadw

Dysgwch am gestyll y Tywysogion Cymreig!

CEFNDIR

Mae yna gannoedd o gestyll yng Nghymru. Gall dysgu am y cestyll hyn ein helpu i ddeall y tirlun gwleidyddol yng Nghymru yn ystod y cyfnod Canoloesol.

Roedd Edward 1af (1239 – 1307) yn frenin Saesneg. Fe adeiladodd neu atgyweirio lawer o gestyll yng Nghymru fel rhan o'i ymdrechion i ddod â Chymru dan reolaeth Lloegr. Mae'n debyg mai Caernarfon, Harlech, Biwmares a Chonwy oedd cestyll mwyaf trawiadol Edward. Mae'r cestyll hyn ar yr arfordir, a thyfodd trefi o'u hamgylch.



Castell Dolwyddelan ©Paul Davis



Castell Biwmaris ©Paul Davis

Ond adeiladwyd cestyll gan y tywysogion Cymreig hefyd. Adeiladwyd llawer o'r rhain mewn lleoliadau anghysbell ac nid oeddynt fel arfer yn gysylltiedig â threfi (ac eithrio Cricieth). Yn aml fe adeiladwyd y cestyll hyn mewn lleoliadau a ddewiswyd yn ofalus, er mwyn amddiffyn neu reoli ffyrdd pwysig neu lwybrau rhwng y mynyddoedd. Adeiladwyd y rhan fwyaf o gestyll y tywysogion Cymreig cyn i Edward adeiladau ei gestyll yntau.

Mae rhai ysgrifennwyr a haneswyr wedi disgrifio cestyll y tywysogion Cymreig fel rhai a ddyluniwyd mewn ffordd flêr iawn. Ond gellir dadlau bod eu dyluniad mewn gwirionedd yn glyfar iawn. Cawsant eu hadeiladu mewn dull a addasodd i dirwedd arw y brynau roeddynt yn sefyll arnynt. Adeiladwyd rhai o gestyll y tywysogion Cymreig am resymau milwrol; roedd rhai yn arwydd o bŵer yn y tirlun, ac weithiau fe newidiodd pwrpas rhai cestyll dros amser.

Gweithgaredd: Gadewch i ni edrych yn fanylach ar Gastell Carndochan!

Bydd y gweithgaredd hwn yn eich helpu i adnabod y nodweddion a'r strwythurau sydd i'w gweld mewn cestyll Cymreig a rhoi cyflwyniad i chi am y gwahanol ffyrdd o'u cofnodi o'r awyr.

BYDDWCH ANGEN

- Copïau o'r ddwy ddelwedd isod (efallai y gallech weithio mewn paru neu griw o dri os ydych yn rhan o grŵp)
- Copïau o gynllun cloddio Castell Carndochan ac awyrlun.
- Beiro a phapur i wneud nodiadau
- Copïau o ddarluniad ailgreu Castell Carndochan



DULL

- Daw'r ddwy ddelwedd yma ar y dudalen nesaf o waith cloddio gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yng Nghastell Carndochan. Edrychwch ar y cynllun sy'n dangos gweddillion y tŵr ar y brig. Edrychwch hefyd ar y llun o'r tŵr ar y gwaelod. Cafodd y ddwy ddelwedd eu creu gan archaeolegydd gan ddangos yr un ardal.
- Allwch chi ddewis pum carreg o'r cynllun (ar y brig) ac adnabod yr un cerrig yn y llun (ar y gwaelod)? Argraffwch y delweddau hyn a defnyddio beiro i roi cylch o amgylch y cerrig os yw hynny'n helpu: Gallwch fynd ati i adnabod mwy o gerrig os hoffech chi.



- Nesaf, byddwch angen cynllun cloddio ac awyrlun o Gastell Carndochan.
- Allwch chi adnabod y gwahanol rannau o'r castell o'r cynllun cloddio (a wnaed yn ystod gwaith cloddio Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd)?

AWGRYM ARDDERCHOG


Y gorthwr (math o dŵr) oedd y rhan amddiffynnol cryf olaf mewn castell.

Mae'r atebion ar dudalen dau ddeg naw!



Allwch chi ychwanegu'r canlynol i'r cynllun:


- Y fynedfa
- Y tŵr hir ar ffurf 'U' (a elwir hefyd yn dŵr cromfannol)
- Y tŵr hanner crwn (neu ffurf 'D')
- Tŵr crwn



OEDDET T'IN GWYBOD?

A wyddoch chi... un o nodweddion amlycaf rhai o gestyll y tywysogion Cymreig yw eu tyrau amlwg ffurf 'U' neu dyrau ffurf 'D'. Petaech yn amddiffyn y castell, byddai tyrau fel hyn yn eich galluogi i saethu dros ardal fwy eang. Mae gwaith cerrig crwn yn gryfach hefyd na thyrau gyda waliau sgwâr (yn debyg iawn i fwa sy'n ysgwyddo llwyth)

Dyma gynllun o Gastell Carndochan wedi'i labelu'n gywir.



- Dyma ddarlun o sut adeilad oedd Castell Carndochan ers talwm efallai, wedi ei gymryd o lyfr o'r enw 'Forgotten Castles of Wales & the Marches' (Logaston Press 2021).
- Allwch chi gyfateb y nodweddion ar y cynllun archaeolegol a'r awyrlun gyda'r darluniad?



clwb archaeolegwyr ifanc
young archaeologists' club



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust



Cadw

Addas ar
gyfer rhai
12+ oed

Amser 45
munud


Recordiwch Sainlun Caban!

CEFNDIR

Mae tirlun llechi'r gogledd orllewin yn rhywbeth pwysig ac arbennig. Gallwch weld olion y chwareli llechi yn y tirlun heddiw a sut y llwyddodd y gwaith cloddio i newid y tirlun. Mae fel edrych drwy'r ffenestr a gweld y gorffennol.



Dyma Chwarel Dinorwig, Llanberis. Edrychwch sut mae'r gwaith cloddio wedi bwyta i mewn i ochr y mynydd!



Map E1.a. Boundaries of the Nominated Property in Northwest Wales.

Dyma Chwarel Penrhyn, Dyffryn Ogwen, gyda thref Bethesda yn y blaendir.

Mae'n wych bod tirlun llechi gogledd orllewin Cymru wedi ennill y statws Safle Treftadaeth y Byd. Ond mae'n bwysig i ni hefyd gofio bod bywyd wedi bod yn anodd a pheryglus iawn i'r rhai a oedd yn gweithio mewn chwarel.



©6469029 © Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Mae'r tirlun llechi mor bwysig ac arbennig nes bod rhan ohono wedi'i ddynodi'n Safle Treftadaeth y Byd gan UNESCO!

Gallwch weld pa ardaloedd ar y map isod a manylu ar bob ardal gyda'r ddolen hon

<https://whc.unesco.org/en/list/1633/>

Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill gan UNESCO yn cynnwys Wal Fawr Tsieina a'r Pyramidiau yn Yr Aifft.

Tyfodd pentrefi, trefi a chymunedau yn ardaloedd y chwareli wrth i bobl symud i weithio yn y chwareli. Llwyddodd tyfiant y pentrefi, trefi, a'r cymunedau hyn i newid y tirlun hefyd ac i gryfhau'r iaith Gymraeg.




Y Caban

Roedd y Caban yn rhan bwysig o fywyd y chwarel, gan mai yno yr oedd y chwarelwyr yn treulio eu hamser dros brydau bwyd. Cwt oedd y caban fel arfer, gyda lle tân, byrddau a chadeiriau. Ond nid dim ond lle i gael cinio oedd y caban. Roedd yn bwysig am resymau eraill:

- Yn y caban roedd gweithwyr yn trafod gwleidyddiaeth neu grefydd
- Roedd yna ganu, barddoniaeth, cystadlaethau a chwisiau
- Cynhaliwyd eisteddfodau mewn cabanau hyd yn oed
- Cafwyd darlithoedd (sgwrs am rywbeth, gyda phawb yn gwrando ar y siaradwr)
- Cynhaliwyd y gweithgareddau hyn yn Gymraeg yn bennaf
- Byddai cymryd rhan mewn pethau o'r fath yn annog y chwarelwyr i fynd i'r brifysgol neu i'r coleg efallai

Delwedd: ©Amgueddfa Cymru - National Museum Wales




Chwarelwyr yn cael eu pryd o fwyd mewn caban yn chwarel lechi'r Oakeley, 1949

GWEITHGAREDDAU BONWS

Gwylwch ran o'r ffilm o 1935 'Y Chwarelwr' i weld chwarelwyr mewn caban.

(gan ddechrau o 17:42) - <https://player.bfi.org.uk/free/film/watch-y-chwarelwr-1935-online>

(Ffilm: Archif Sgrin a Sain, Llyfrgell Genedlaethol Cymru)




Gweithgaredd: Beth am greu sainlun caban!



Ceisiwch ailgreu yr holl synau posib yn y caban. Rydych yn mynd i greu'r holl leisiau a'r synau eich hunain. Recordiwch y sainlun gyda GarageBand (ap sydd ar yr iPad).

BYDDWCH ANGEN

- iPad
- Papur a phensel os ydych yn ysgrifennu sgriptiau byrion ar gyfer gwahanol rannau o'r sainlun.
- I'ch helpu, mae yna fideo o'n gwaith yn creu enghraifft o sainlun.
- Propiau i wneud synau, e.e. cylllyll a ffyrc



DULL


Meddylwch am y clip ffilm a wylio ch uchod a chynlluniwch yr hyn y byddwch yn ei gynnwys yn eich sainlun. Gallai'r rhain fod yn bethau fel:

- Sgyrsiau rhwng chwarelwyr. Ysgrifennwch eich sgyrsiau eich hun, eu hymarfer, ac yna eu recordio
- Synau (pethau fel byrddau a chadeiriau, cyllyll a ffyr) 
- Chwarelwr yn cyflwyno cân neu ddarn o farddoniaeth
- Canu neu farddoniaeth. Ysgrifennwch gân syml, neu canwch ran o gân sy'n gyfarwydd i chi'n barod, efallai cân yr ydych yn ei chanu yn yr ysgol. Neu gwnewch yr un fath gyda darn o farddoniaeth
- Cymeradwyaeth (clapio)

Ewch amdani! Gwnewch eich sainlun eich hun!

Isod ceir canllaw byr ar ddefnyddio GarageBand i recordio a golygu eich sainlun.


1. Wedi i chi agor GarageBand, tapiwch yr eicon microffon ar y sgrin hon



2. Diffoddwch y metronôm




3. Trowch yr effaith 'reverb' i lawr




4. Tapiwch yr eicon + hwn a dewis Adran A

5. Sicrhewch fod yr opsiwn 'Automatic' ymlaen



6. Tapiwch drac ddwywaith i'w ddileu neu ei ail-enwi



AWGRYM ARDDERCHOG

Cofiwch arbed eich prosiect drwy dapio ar yr eicon ar y brig ochr chwith


7. I greu trac recordio newydd, tapiwch yr eicon 'plus' isod

AWGRYM ARDDERCHOG

1. Tapiwch yr eicon hwn i ddistewi neu ddad-ddistewi traciau

AWGRYM ARDDERCHOG

Sleidiwch draciau i newid eu lleoliad yn y sainlun





GWEITHGAREDDAU BONWS

Beth am greu sainlun mwy uchelgeisiol fyth na'r un yn ein fideo?

Neu beth am uno gyda'ch ffrindiau a chreu un ar y cyd? Gallech weithio'n annibynnol ar wahanol elfennau o'r sainlun, allforio'r ffeiliau sain ac yna uno'ch holl waith fel un prosiect unigol. Mae ein fideo 'Sut i' yn egluro sut i wneud hyn.

Os nad oes gennych iPad...

Gallech fod yn eithriadol o ddyfeisgar a chynllunio, ymarfer a pherfformio gwahanol rannau eich sainlun fel drama fer.



Y tu mewn i hen gaban, Chwarel Dinorwig



Mae'r gweithgaredd sainlun caban hwn hefyd yn ffurfio rhan o'r adnodd addysgu ar gyfer ysgolion cynradd gan Cadw

